# ARGYMHELLION Y PWYLLGOR MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR 19 MAI 2025

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Troy Maclean

Peter Jones

Mark Thomas

David Meirion Jones

Dewi Prysor Williams

Gareth Davies

Marc Lloyd Griffiths

Rory Francis

Geoffrey Jones

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Delia a Dion o'r Heddlu

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths y gadair ar gyfer y cyfarfod.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Morwenna Pugh, Dafydd Dafis, Ellen Pugh, Dirprwy Glerc.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod aelodau'r cyhoedd wedi son wrtho am y graean a oedd wedi casglu yn nŵr y llyn yn Nolrhedyn, ac a ellid gwneud rhywbeth ynglŷn â hynny.

Cytunwyd symud eitem rhif 9 er mwyn caniatau i'r cynrychiolwyr o'r heddlu adael.

**9. Diwrnod Agored yn y Berllan – Cymorth Ariannol gan yr Heddlu Lleol**

Cafwyd diweddariad ar y trefniadau ar gyfer y diwrnod agored. Cytunwyd dylunio poster a rhoi copïau i Delia i'w dosbarthu. Ar ôl trafodaeth cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod y diwrnod agored yn cael ei gynnal ar yr 2il o Awst 2025 a chytunodd pawb.

**4. Caeau Chwarae**

Adroddwyd bod y si-sô yng nghae Bryncoed wedi cael ei ddifrodi. Cytunwyd bod y Swyddog Cynnal a Chadw yn ei symud ymaith rhag ofn i rywun frifo, a gofyn i G L Jones am bris i osod un newydd.

Y Berllan – gofynnodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn gofyn i'r Frigâd Dân os gallent lenwi'r tanc IBC, a chytunodd y Clerc wneud hynny.

Derbyniwyd yr adroddiad.

DRAFT

**5.** **Llwybrau Cerdded**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**6.** **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Cladio'r tanc IBC a chlirio sbwriel yn y Berllan. Gofynnwyd am gael adroddiad ar bapur at y dyfodol.

**7.** **Derbyn ac adolygu dyfynbrisiau gan G L Jones am waith yn y Parc a Bryn Coed a Siglenni newydd yn y Parc**

Cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor Tref yn derbyn y prisiau a chytunodd pawb.

**8.** **Planhigion ar gyfer gardd y Gofgolofn yn Llan, y Parc a'r Berllan**

Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y Cyngor Tref yn rhoi £2,000.00, i'w rannu rhwng y tair ardal a chytunodd pawb.

**9.** Roedd yr eitem hon wedi ei thrafod yn gynharach yn y cyfarfod.

**10.** **MUGA**

Dywedwyd bod angen talu'r gyfran gyntaf o'r arian cyn i'r gwaith ddechrau, ond y byddai hwn yn cael ei ad-dalu gan Gyngor Gwynedd.

**11.** **Diweddariad – Tasgau'r Clerc/Dirprwy Glerc**

Cafwyd adroddiad ar y gwaith roedd angen ei wneud ar y Caffi a derbyniwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.36pm

DRAFT